# JONES, WILLIAM (1896 - 1961), bardd a gweinidog

**Enw:** William Jones
**Dyddiad geni:** 1896
**Dyddiad marw:** 1961
**Priod:** Jane Gertrude Jones (née Williams)
**Rhiant:** Margaret Jones (née Jones)
**Rhiant:** Henry Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd a gweinidog
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Eisteddfod; Barddoniaeth
**Awdur:** Brynley Francis Roberts

Ganwyd 24 Medi 1896, Trefriw, Caernarfon, mab Henry Jones, gweinidog (A) a'i wraig Margaret (Madgie), merch William Jones, gweinidog (MC) Trawsfynydd. Addysgwyd ef yn ysgol sir Llanrwst (1908) ac aeth i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, yn 1914 a Choleg Bala-Bangor 1914-16. Graddiodd yn y Gymraeg a Hebraeg yn 1917. Ordeiniwyd ef yn weinidog y Tabernacl (A), Betws-y-coed yr un flwyddyn ond dychwelodd i'r coleg i barhau ei astudiaethau yn ystod 1919-20 ac eto yn 1923-24 eithr heb gymryd gradd uwch. Bu'n weinidog ar eglwysi Saesneg (A) Rednol a West Felton, Swydd Amwythig (1920) a Llanfair Caereinion (A). Ymddiswyddodd yn 1937 a symud i Dremadog (i hen gartref ei daid, y Parch. William Jones) a chymryd gofal eglwys Bethel (MC) am gyfnod er na fu'n fugail swyddogol arni. Bu'n cynorthwyo beth yn y gangen leol o Lyfrgell y Sir yn ogystal. Fel bardd y daeth i amlygrwydd, a hynny yn nyddiau coleg. Ymddangosodd un o'i gerddi mwyaf adnabyddus, baled ' Y llanc ifanc o Lŷn ', yn *A book of Bangor verse* (1924). Yr oedd yn gyfeillgar â llenorion amlwg megis Robert Williams Parry a J.T. Jones, Porthmadog, a bu'n fuddugol droeon yn yr Eisteddfod Genedlaethol Cyhoeddodd ddwy gyfrol o gerddi a thelynegion swynol a chymen, *Adar Rhiannon* (1947), a *Sonedau a thelynegion* (1950). Priodod Jane Gertrude (Jennie) Williams, Coed-poeth, yn 1924; bu farw yn ei gartref, 14 Church St., Tremadog, 18 Ionawr 1961 a'i gladdu ym mynwent Bethel.

## Awdur

Dr Brynley Francis Roberts

## Ffynonellau

*Blwyddlyfr y Methodistiaid Calfinaidd*, 1962, 260-1

*Y Goleuad*, 8, Chwefror 1961

*Y Cymro*, 26 Ionawr 1961

*Barddoniaeth Bangor 1927-31*

ei bapurau yn llawysgrifau UCNW 16581-89

*Y Genhinen*, 1961

Ifor Rees, *Ar glawr* (Llandybie 1983) (1983), 109-17

Bedwyr L. Jones, *Rhyddiaith R. Williams Parry detholiad* (Dinbych 1974) (1974), 123-6

*Taliesin*, 60 (1987), 49-54

gwybodaeth gan Tomos Roberts a Derwyn Jones, Bangor

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: William Jones

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 26257778

Wikidata: Q13132360

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Roberts, B. F., (1997). JONES, WILLIAM (1896 - 1961), bardd a gweinidog. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-JONE-WIL-1896

Copïo'r cliprwydd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan: Llywodraeth Cymru
Sponsored by: Welsh Government